Adroddiad ar

# Ysgol Aberconwy

Morfa Drive
Conwy
LL32 8ED

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Aberconwy

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Aberconwy |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1083 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 966 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 117 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 21.1%) | 18.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 11.2%) | 13.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 11.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.7% |
| Partner arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2014 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 03/03/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/10/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae arweinwyr a staff yn Ysgol Aberconwy yn blaenoriaethu cymorth a gofal ar gyfer eu disgyblion. Maent wedi sefydlu cymuned ofalgar lle caiff amrywiaeth ei dathlu, ac anogir parch ar y ddwy ochr. Ceir diwylliant diogelu cadarnhaol lle mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel pan fyddant yn yr ysgol. At ei gilydd, mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion, ac mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda o gwmpas yr ysgol.

Mae ansawdd yr addysgu'n rhy amrywiol, gan olygu bod disgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn tua hanner y gwersi yn unig. Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau priodol, maent yn cynllunio tasgau difyr ac mae ganddynt arferion buddiol sy'n eu cynorthwyo i reoli ymddygiad disgyblion. Fodd bynnag, mewn tua hanner y gwersi, mae athrawon yn aml yn cynllunio tasgau diymdrech, mae ganddynt ddisgwyliadau rhy isel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, ac nid ydynt yn herio ymddygiad aflonyddgar yn ddigon da. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cyfyngedig. Yn ychwanegol, mae effaith yr adborth ysgrifenedig a llafar yn rhy amrywiol, yn enwedig o ran gwella medrau llythrennedd disgyblion.

Mae'r ysgol wedi newid ei hymagwedd at y cwricwlwm ym Mlynyddoedd 7 i 9 ac wedi gweithio i greu cysylltiadau ystyrlon rhwng meysydd pwnc. Er bod ychydig o enghreifftiau o brofiadau dysgu effeithiol, ar y cyfan, nid yw pynciau'n cynllunio'n ddigon da i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol. Yn ychwanegol, nid yw darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn raddol yn cael ei chynllunio na'i chydlynu'n ddigon strategol. O ganlyniad, nid yw cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso neu ddatblygu eu medrau ochr yn ochr â'u dealltwriaeth bynciol yn ddigon heriol yn aml, ac nid ydynt yn eu cynorthwyo i wella'u medrau, yn enwedig eu cywirdeb technegol wrth ysgrifennu.

Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys ac yn rhoi cymorth ac arweiniad buddiol i ddisgyblion i'w helpu i wneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol. Mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn mwynhau bod yn rhan o gymuned yr ysgol. Yn gyffredinol, maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol mewn gwersi ac yn gweithio'n gynhyrchiol gyda'i gilydd. At ei gilydd, mae'r ysgol yn rhoi cymorth addas i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae dwy ganolfan adnoddau dysgu'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar lle mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn teimlo'n ddiogel. Mae'r cymorth cymdeithasol ac emosiynol ar gyfer disgyblion yng nghanolfan Tegfan yn gryf ac mae canolfan ABCD yn darparu cymorth targedig buddiol i'w disgyblion wella'u medrau

llythrennedd. Fodd bynnag, mae'r cynnydd a wna disgyblion yng nghanolfan Tegfan yn rhy amrywiol.

Er bod arweinwyr wedi sicrhau gwelliannau addas yn y gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion, nid yw arweinyddiaeth ar bob lefel wedi cael digon o effaith ar nifer o feysydd pwysig, yn enwedig ansawdd yr addysgu a'r dysgu, datblygiad graddol medrau disgyblion, a phresenoldeb disgyblion. Mae hyn yn bennaf oherwydd yr amrywiad yng ngallu arweinwyr i werthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant, ac oherwydd nad yw uwch arweinwyr yn sicrhau bod arweinwyr canol yn gyson effeithiol yn y ffordd y maent yn cyflawni eu rolau. Er bod y pennaeth wedi cryfhau'r uwch dîm arweinyddiaeth yn ddiweddar, nid yw'r prosesau ar gyfer atebolrwydd yn ddigon effeithiol o ran ysgogi gwelliannau. Mae arweinwyr wedi mireinio'u prosesau ar gyfer gwella presenoldeb disgyblion yn ddiweddar, ond megis dechrau y mae'r rhain. Mae cyfraddau presenoldeb, yn enwedig ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn parhau i fod yn faes pwysig i'w wella.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud chwe argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel yn cael eu dwyn i gyfrif yn llawn am sicrhau gwelliant

A2. Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso a gwelliant yn canolbwyntio'n fanwl gywir ar gynnydd a datblygiad medrau disgyblion

A3. Gwella ansawdd ac effaith yr addysgu a'r adborth fel bod hyn yn cynorthwyo pob disgybl i wneud cynnydd cryf

A4. Gwella presenoldeb disgyblion, yn enwedig presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol

A5. Cryfhau cydlynu'r ddarpariaeth i gefnogi datblygiad graddol medrau disgyblion, a sicrhau ymagwedd gyson gadarn at wella cywirdeb technegol ysgrifennu disgyblion

A6. Sicrhau bod y cwricwlwm yn cefnogi datblygiad gwybodaeth a dealltwriaeth bynciol disgyblion yn gyson

## Beth sy’n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o’r farn fod angen mesurau arbennig yn gysylltiedig â’r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob pedwar i chwe mis, fel arfer.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae disgyblion yn Ysgol Aberconwy yn falch o fod yn rhan o gymuned eu hysgol. Mae llawer ohonynt yn ymddwyn yn dda o gwmpas yr ysgol ac mae ganddynt berthnasoedd cadarnhaol â'u hathrawon a'u cyfoedion. Mae llawer o ddisgyblion yn cydymffurfio mewn gwersi ac mae mwyafrif ohonynt yn dal ati i ganolbwyntio yn ystod tasgau, ac yn ymgysylltu'n addas â dysgu.

Mewn tua hanner y gwersi, mae disgyblion, yn cynnwys y rhai ag ADY, yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu. Maent yn ymgysylltu'n bwrpasol mewn gweithgareddau ac yn dangos ymrwymiad i wella'u gwaith. Yn y gwersi hyn, mae athrawon:

- yn sefydlu arferion buddiol sy'n eu cynorthwyo i reoli ymddygiad disgyblion yn briodol
- yn meddu ar ddisgwyliadau addas o ymgysylltiad a chynnydd disgyblion
- yn cynllunio'n addas ar gyfer dysgu disgyblion ac yn cynllunio tasgau i gefnogi cynnydd
- yn darparu esboniadau clir ac yn defnyddio holi i brofi dealltwriaeth disgyblion, a'r ffordd y maent yn galw i gof

Yn y gwersi prin iawn lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ohonynt, yn rhoi esboniadau manwl gywir ac yn modelu prosesau dysgu ac iaith yn effeithiol. Maent yn addasu cyflymdra gwersi'n fedrus i ymateb i ddysgu'r disgyblion ac yn gofyn cwestiynau treiddgar sy'n procio'r dysgu ac yn datblygu'r meddwl.

Mewn tua hanner y gwersi, mae diffygion mewn addysgu yn golygu bod disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn unig o ran datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Yn yr achosion hyn:

- mae gan athrawon ddisgwyliadau isel o ymgysylltiad a chynnydd disgyblion
- mae athrawon yn darparu gweithgareddau nad ydynt yn ddigon heriol neu sydd wedi'u sgaffaldio'n ormodol
- nid yw athrawon yn ymyrryd pan fydd disgyblion wedi ymddieithrio
- nid yw athrawon yn cynorthwyo disgyblion yn ddigon da i ddatblygu eu gwybodaeth neu'u medrau pwnc

Mewn gwersi, mae lleiafrif o ddisgyblion yn ei chael yn anodd canolbwyntio, ac yn aml, caniateir iddynt aros yn oddefgar. O ganlyniad, nid ydynt yn datblygu eu hannibyniaeth na'u gwydnwch pan fydd gwaith yn mynd yn heriol.

Mae effaith yr adborth i ddisgyblion yn rhy amrywiol. Er bod tua hanner yr athrawon yn cylchu eu hystafelloedd dosbarth ac yn darparu sbardunau fel bod disgyblion yn ailymgysylltu â'u dysgu, at ei gilydd, nid yw'r adborth ysgrifenedig a llafar yn helpu disgyblion i ddeall sut i wella'u gwaith yn ddigon da. Yn rhy aml, ni chaiff camgymeriadau pwysig yn llythrennedd disgyblion eu nodi.

Yn gyffredinol, mae gan ddisgyblion yn y chweched dosbarth agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac yn ymgysylltu'n briodol â dysgu. Maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u hathrawon a'u cyfoedion, ac yn awyddus i wella'u dysgu.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon, er nad yw lleiafrif ohonynt, ac maent yn aml yn colli gwybodaeth a fyddai'n cynorthwyo'u dysgu. Mae lleiafrif ohonynt yn darparu ymatebion a ddatblygwyd yn briodol ar lafar ac yn defnyddio geirfa briodol, er enghraifft wrth esbonio'u meddwl mathemategol. Mae gan ryw hanner y disgyblion eirfa gyfyngedig ar lafar a diffyg hyder i fynegi eu hunain yn gydlynus. Mae'r ysgol wedi datblygu rhaglen gymorth i ddatblygu medrau llafaredd disgyblion, ond mae'r strategaethau a ddarperir yn amlwg mewn nifer gyfyngedig o wersi yn unig. Yn ychwanegol, nid yw'r holi gan athrawon yn procio dealltwriaeth disgyblion nac yn eu herio i ddatblygu eu hymatebion ar lafar. O ganlyniad, ni chaiff disgyblion eu cynorthwyo'n ddigon da i ymestyn eu medrau llafar neu wella datblygiad eu geirfa.

Mae'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd darllen i ddatblygiad disgyblion, a'i nod yw eu hannog i ddarllen trwy raglen ddarllen ac amser darllen dynodedig wythnosol ym Mlynyddoedd 7 ac 8. Fodd bynnag, mae cyfleoedd sy'n briodol o heriol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen uwch ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig, ac nid yw'n ofynnol i ormod o ddisgyblion ddefnyddio medrau darllen y tu hwnt i adalw gwybodaeth ac ymresymu a dod i gasgliadau sylfaenol.

Mae diffyg cywirdeb technegol yn ysgrifennu'r mwyafrif o ddisgyblion. Maent yn gwneud camgymeriadau cyffredin mynych wrth lunio brawddegau sylfaenol, sillafu, yn cynnwys geirfa sy'n benodol i bwnc, ac o ran strwythur eu gwaith. Mae gan yr ysgol ddisgwyliadau addas ar gyfer marcio llythrennedd, ond caiff hyn ei gymhwyso'n gyson gan ychydig o athrawon yn unig. Mae cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion gynhyrchu ysgrifennu estynedig mewn gwahanol byncIau yn rhy gyfyngedig, ar y cyfan. Caiff hyn ei waethygu mewn lleiafrif o bynciau lle mae disgyblion yn cael eu hannog i lunio atebion byr mewn arddull arholiad yn hytrach na datblygu eu medrau ysgrifennu, neu mae'n ofynnol iddynt lenwi taflenni gwaith nad ydynt yn eu galluogi i ymestyn eu hymatebion.

Nid yw'r cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn ddigon heriol ac maent wedi'u cyfyngu'n bennaf i lunio graffiau syml. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn ddigonol ac mae

hyn yn cyfyngu ar eu gallu i alw'r cysyniadau hyn i gof a'u cymhwyso mewn cyd-destunau mwy heriol.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn meddu ar fedrau rhif sylfaenol addas. Maent yn defnyddio pedair rheol rhif yn gywir, er enghraifft wrth gyfrifo cymarebau ac arwynebeddau siapiau sylfaenol. Mae disgyblion mwy abl yn gweithio'n fedrus gydag agweddau mwy cymhleth fel adlog a thrigonometreg. Mae gan leiafrif o ddisgyblion fedrau rhifedd gwan. Nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigonol o agweddau fel gwerth lle, sy'n cyfyngu ar eu gallu i adio a thynnu degolion syml a thalgrynnu rhifau.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg yn dda. Mae'r ysgol yn datblygu partneriaethau â sefydliadau allanol, yn cynnwys yr Urdd. Mae hyn wedi helpu ymestyn profiadau disgyblion o'r Gymraeg a'i diwylliant. Mae disgyblion yn y 'Criw Cymraeg' yn gweithio gyda staff yn fuddiol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg.

Mae gan lawer o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg, ac maent yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau iaith, ar y cyfan. Maent yn ynganu geiriau Cymraeg sylfaenol yn gywir ac yn cynnal sgyrsiau byr. O roi'r cyfle iddynt, maent yn darllen brawddegau a pharagraffau byr ar goedd yn hyderus. Nid oes gan ychydig o ddisgyblion hyder wrth siarad Cymraeg. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu gyda safon dda o gywirdeb, ar y cyfan. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn addasu eu hysgrifennu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu araith ar effaith y 'Welsh Not' ar addysg.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd addas â'u medrau digidol. Ceir cyfleoedd gwerthchweil i ddisgyblion ddatblygu'r medrau hyn mewn ychydig o bynciau ar draws y cwricwlwm, yn cynnwys cynhyrchu ffilmiau byr a phodlediadau.

Mae'r ysgol wedi rhoi pwyslais sylweddol ar greu'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3, sy'n adlewyrchu ei datganiad cenhadaeth, sef Ysbrydoli, Cefnogi, Llwyddo (Inspire, Support, Succeed). Mae'r dull prosiect yn uchelgeisiol o ran ei nod i gynorthwyo disgyblion i greu cysylltiadau cynhyrchiol ar draws pynciau a darparu cyd-destunau dilys iddynt y gall eu dysgu ffynnu ynddynt. Fodd bynnag, er bod ychydig o enghreifftiau o brofiadau dysgu cynlluniedig a difyr, mae gormod o amrywiad o ran pa mor dda y mae pynciau unigol yn cynllunio ar gyfer datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau pwnc disgyblion. Mae hyn yn aml oherwydd nad oes gan athrawon ddealltwriaeth gyson o sut i roi gweledigaeth yr ysgol ar gyfer y cwricwlwm ar waith, ac maent yn aml yn canolbwyntio'n rhy gryf ar gysylltu eu cynlluniau â thema drosfwaol yn hytrach na chynllunio ar gyfer dysgu'r disgyblion.

Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae'r cwricwlwm yn eang ac yn cynnwys cydbwysedd da, ar y cyfan. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda cholegau

lleol i ymestyn ei chynnig cwricwlwm i ddisgyblion, yn cynnwys darparu opsiynau galwedigaethol fel technoleg cerbydau ac adeiladu.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar hunaniaeth leol a'r ymdeimlad o 'Gynefin', gan gynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddyfnhau eu gwerthfawrogiad o dreftadaeth a diwylliant Cymru, a meithrin eu hymdeimlad o le a pherthyn. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 8 yn dysgu am sut le oedd Conwy yn yr Oesoedd Canol, a pham adeiladwyd y castell.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn ystod, ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Mae hyn yn cynnwys clybiau chwaraeon, diwylliannol a chreadigol poblogaidd fel beicio mynydd, gwyddbwyll a ffotograffiaeth, yn ogystal ag ystod ddifyr o dripiau ac ymweliadau. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r profiadau hyn, sy'n cyfrannu at eu cysylltiad cryf â'u hysgol, a'u parch amdani.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol sy'n cefnogi datblygiad a dealltwriaeth gymdeithasol, foesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn briodol. Caiff y rhaglen ei chynllunio'n ymatebol yn sgil gwybodaeth o holiaduron iechyd ac arolygon llais y disgybl a'r staff. Un o nodweddion buddiol y ddarpariaeth hon yw'r hyfforddiant cymorth cyntaf ac achub bywyd a ddarperir i Flwyddyn 7.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod o gyfleoedd ystyrlon i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o amrywiaeth. Er enghraifft, mae'r tîm amrywiaeth staff, ynghyd â llysgenhadon myfyrwyr, yn trefnu diwrnodau thema trwy gydol y flwyddyn ysgol, gan hyrwyddo a dathlu amrywiaeth a chynhwysiant. Mae hyn yn cyfrannu at ymdeimlad cryf disgyblion o berthyn ac yn eu helpu i ddatblygu perthnasoedd parchus â'i gilydd, a gyda staff ac ymwelwyr.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Aberconwy yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae perthnasoedd rhwng staff a disgyblion yn gefnogol, a cheir diwylliant cryf o ofal. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymdeimlad addas o barch ar y ddwy ochr, yn cynnwys dathlu amrywiaeth a chydraddoldeb yn briodol trwy fentrau fel y clwb LHDTC+, llysgenhadon amrywiaeth a chodi arian yn gynhwysol, sy'n cryfhau ymdeimlad disgyblion o berthyn a lles ymhellach.

Mae'r ysgol yn darparu ystod o amgylcheddau cefnogol lle mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu hannog, yn cynnwys trwy ystod o ymyriadau buddiol ar gyfer eu lles emosiynol a chorfforol. Mae'r cydweithio ag asiantaethau allanol yn darparu cymorth targedig ychwanegol priodol ar gyfer disgyblion ag anghenion penodol.

Mae disgyblion yn elwa ar broses drefnus o ran opsiynau a phontio a gefnogir gan nifer o ddigwyddiadau, llyfrynnau opsiynau a nosweithiau gwybodaeth ar gyfer disgyblion a

rhieni. Mae cyngor diduedd yn galluogi disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus am ddysgu neu gyflogaeth yn y dyfodol. Mae trefniadau pontio ar gyfer disgyblion ag ADY ar wahanol adegau yn eu dysgu yn cefnogi eu hanghenion unigol ac yn eu helpu i addasu wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, a thu hwnt.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygu arweinyddiaeth disgyblion yn yr ysgol. Yn ddiweddar, maent wedi addasu dull i alluogi disgyblion i gael dylanwad cryfach ar fywyd yr ysgol. Mae'r ystod hon o gyfleoedd a phrofiadau ystyrlon yn galluogi disgyblion i ymgymryd â chyfrifoldebau a datblygu eu medrau arwain. Gwrandewir ar y disgyblion hyn ac maent yn dechrau dylanwadu ar wneud penderfyniadau, er mai megis dechrau datblygu y mae effaith eu gwaith ar sicrhau gwelliant yn yr ysgol.

Mae arweinwyr a staff yn y tîm ADY yn dangos ymrwymiad cryf i gynorthwyo'r disgyblion y maent yn gweithio gyda nhw. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau i ddiwallu anghenion unigol yn briodol. Mae gan ddisgyblion ag ADY Gynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) perthnasol sy'n cael eu hadolygu'n briodol mewn cydweithrediad ag asiantaethau allanol, rhieni a disgyblion. Yn ychwanegol, darperir cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol sy'n canolbwyntio ar ddisgyblion ag anghenion penodol. Mae hyn yn helpu gwella'r ddarpariaeth dargedig ar gyfer disgyblion ag ADY.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i wella prydlondeb a phresenoldeb disgyblion, ac wedi cryfhau ei ffocws ar yr agwedd hon yn ddiweddar. Mae'n cydnabod ac yn hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb da yn briodol. Mae arweinwyr wedi adolygu strategaethau ar gyfer monitro a dadansoddi presenoldeb, gan wneud newidiadau defnyddiol i'w prosesau. Pan mae presenoldeb gwael yn parhau, mae'r ysgol wedi dechrau cymryd camau addas i gynorthwyo disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol. Fodd bynnag, mae llawer o'r gwaith hwn wedi digwydd yn ddiweddar, a thros gyfnod, nid yw gwaith arweinwyr yn y maes hwn wedi cael effaith ddigonol ar wella cyfraddau presenoldeb, sy'n parhau i fod islaw cyfraddau presenoldeb ysgolion tebyg. Mae data'r ysgol, heb ei wirio, yn awgrymu bod presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gostwng yn sylweddol o 2023-2024 i 2024-2025, a bod lefelau presenoldeb ar gyfer disgyblion ag ADY yn parhau i fod ymhell islaw lefelau presenoldeb eu cyfoedion.

Mae arweinwyr a staff ar draws yr ysgol yn dangos ymrwymiad cryf i ddiogelu. Mae'r tîm diogelu'n meddu ar ddealltwriaeth dda o'i rolau a'i gyfrifoldebau, ac mae staff a llywodraethwyr yn cwblhau hyfforddiant diogelu perthnasol. Mae staff yn gwneud atgyfeiriadau pan fydd angen ac yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion a'u teuluoedd. Mae staff bugeiliol yn ymateb yn briodol i unrhyw achosion honedig o fwlio, gan ddarparu cymorth teilwredig i bawb, a'u helpu i ddeall ymddygiadau amhriodol, a mynd i'r afael â nhw. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn

ymwybodol o sut i adrodd am bryderon ynghylch diogelu. Mae arweinwyr a staff wedi sefydlu diwylliant diogelu cefnogol lle mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel.

## Canolfannau Adnoddau Dysgu Tegfan ac ABCD

Nodweddir addysgu a dysgu ar draws darpariaethau Tegfan ac ABCD gan berthnasoedd cryf rhwng staff a disgyblion, gyda ffocws cyson ar les ac anogaeth. Mae bron pob un o'r staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn creu amgylcheddau digynnwrf a chefnogol sy'n hyrwyddo diogelwch a rheoleiddio emosiynol. Mae arweinwyr yn darparu strwythurau clir sy'n cyd-fynd â systemau ysgol ehangach, gan gefnogi cynhwysiant a gofal bugeiliol cydlynus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion synhwyraidd a therapiwtig wedi hen ennill ei phlwyf, ac mae dulliau'n cael eu hymgorffori mewn arferion dyddiol. Mae darpariaeth ABCD yn cynnig cymorth llythrennedd targedig effeithiol i ddisgyblion mewn gwersi a sesiynau tynnu allan o wersi. Mae gwaith gwerthfawr i hyrwyddo annibyniaeth, fel hyfforddiant teithio, dysgu yn yr awyr agored, a medrau bywyd ymarferol, yn helpu disgyblion i baratoi ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol.

Er gwaethaf y cryfderau hyn, mae'r effaith ar gynnydd academaidd disgyblion yn narpariaeth Tegfan yn rhy amrywiol. Mae mwyafrif y disgyblion mewn ymyriadau cymdeithasol ac emosiynol yn gwella rheoleiddio ac ymgysylltu yn dda. Mae arweinwyr yn dechrau cryfhau systemau monitro ac yn cynyddu'r ffocws ar gynnydd academaidd, ond mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y gwaith hwn.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ystyriol, ac mae cynhwysiant a lles pob un o'r disgyblion a'r staff yn ganolog i'w weledigaeth. Mae'r weledigaeth hon wedi'i seilio ar genhadaeth yr ysgol i 'ysbrydoli, cefnogi, llwyddo', a'i gwerthoedd, sef 'byddwch yn barod, byddwch yn barchus, byddwch yn garedig' ('be ready, be respectful, be kind'). Caiff y weledigaeth hon ei chroesawu gan lywodraethwyr, staff a disgyblion.

Mae arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar y gofal ac arweiniad i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw wedi cael digon o effaith ar feysydd pwysig o waith yr ysgol fel ansawdd yr addysgu, y ddarpariaeth ar gyfer medrau a phresenoldeb disgyblion.

Mae'r pennaeth wedi ymestyn aelodaeth yr uwch dîm arweinyddiaeth i gynyddu capasiti a datblygu arweinwyr. Yn gyffredinol, caiff cyfrifoldebau'r uwch arweinwyr eu dyrannu'n synhwyrol ac maent yn cysylltu'n briodol â medrau a phrofiad unigolion.

Mae'r rhan fwyaf o'r arweinwyr canol yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt gan eu rheolwyr llinell ac yn gwerthfawrogi eu polisi drws agored. Mae llawer ohonynt yn frwdfrydig am eu

gwaith ac mae gan y mwyafrif ohonynt ddealltwriaeth addas o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae ychydig ohonynt yn darparu arweinyddiaeth glir a phwrpasol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth yn eu meysydd cyfrifoldeb. Fodd bynnag, mae'r effeithiolrwydd arweinwyr canol wrth gyflawni eu cyfrifoldebau yn rhy amrywiol, ar y cyfan.

Mae cyfarfodydd rheolaeth llinell yn darparu cyfleoedd priodol i uwch arweinwyr ac arweinwyr y cwricwlwm drafod materion allweddol, gan gynnwys deilliannau disgyblion, canfyddiadau o weithgareddau hunanwerthuso a blaenoriaethau adrannol. Fodd bynnag, nid yw llawer o arweinwyr canol yn gwerthuso gwaith eu hadrannau yn effeithiol ac nid ydynt yn cael eu dwyn i gyfrif yn ddigon cadarn gan uwch arweinwyr. Nid yw'r arweinwyr canol hyn yn rhoi digon o ystyriaeth i'r effaith a gaiff addysgu ar gynnydd a datblygiad medrau disgyblion. Maent yn rhy gadarnhaol am ansawdd yr addysgu, ac nid oes gan leiafrif ohonynt ddisgwyliadau digon uchel o'u staff na'u disgyblion. O ganlyniad, nid yw eu gwerthusiadau'n nodi'n ddigon manwl gywir yr elfennau addysgu a dysgu sydd angen eu gwella fwyaf. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio ar gyfer gwelliannau pwysig, a'u sicrhau.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr bugeiliol yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella fwyaf. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am y disgyblion a'u teuluoedd sy'n helpu sicrhau cymorth amserol, lle mae angen. Mae arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth i leihau effeithiau tlodi ar les disgyblion a'u hymgysylltiad â dysgu, ac mae'r ysgol wedi gwerthuso'r defnydd o'r grant datblygu disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023, roedd perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ymhell islaw perfformiad eu cyfoedion mewn ysgolion tebyg, ac arhosodd islaw hyn yn 2023-2024.

Mae gan yr ysgol galendr clir o weithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, ac mae arweinwyr ar bob lefel yn cymryd rhan mewn ystod addas o weithgareddau gwerthusol. Mae hyn wedi helpu uwch arweinwyr i nodi'r meysydd eang i'w gwella sy'n angenrheidiol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr ar bob lefel yn gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion yn ddigon manwl gywir. Er enghraifft, nid yw arweinwyr yn nodi'r agweddau penodol ar addysgu neu ddarpariaeth ar gyfer medrau sy'n cael yr effaith fwyaf ar gynnydd disgyblion yn ddigon da. Yn ychwanegol, nid yw'r ysgol wedi gwneud cynnydd digonol yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiad craidd diwethaf.

Mae cysylltiad priodol rhwng blaenoriaethau'r ysgol a phrosesau adolygu datblygu perfformiad. Mae'r prosesau hyn yn cynnwys cyfleoedd buddiol i staff drafod eu dyheadau proffesiynol a'r dysgu sy'n angenrheidiol i gyflawni'r nodau hynny. Mae gan yr ysgol raglen o weithgareddau dysgu proffesiynol sy'n cysylltu'n briodol â nodau datblygu eang yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i rannu arfer dda a chydweithio ag ysgolion eraill. Fodd bynnag, gan nad yw arweinwyr yn nodi'n ddigon manwl gywir yr union agweddau ar

safonau a darpariaeth sydd angen eu gwella fwyaf, nid yw'r rhaglen dysgu proffesiynol yn targedu'r agweddau hyn yn ddigon penodol. Yn ychwanegol, nid yw'r dysgu proffesiynol wedi cael digon o effaith ar allu arweinwyr i werthuso addysgu a dysgu.

Mae'r ysgol wedi ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol yn briodol, fel hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chynorthwyo disgyblion ag ADY. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cael digon o effaith ar wella presenoldeb nac ar y cynllunio strategol ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol, er enghraifft ysgrifennu â lefel briodol uchel o gywirdeb.

Mae'r pennaeth, y rheolwr busnes a'r llywodraethwyr yn rheoli'r gyllideb yn effeithiol. Maent yn greadigol o ran cael atebion i heriau staffio ac wedi diwygio trefniadau'n briodol.

Mae llywodraethwyr yn darparu lefel uchel o gymorth a her briodol ar faterion gweithredol, fel penderfyniadau staffio. Fodd bynnag, nid ydynt wedi herio'r ysgol yn ddigonol ar agweddau strategol pwysig, fel ansawdd addysgu.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion i gefnogi lles disgyblion a'u hymgysylltiad mewn dysgu. Mae'r grant datblygu disgyblion yn cael ei werthuso'n briodol ond nid yw wedi cael digon o effaith ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/12/2025